3

8

4

7

5

9

10

6

2

# Cerdded yn olion traed chwedl … Aneurin Bevan

Roedd Nye Bevan wrth ei fodd yn cerdded



**Man cychwyn: 1 Top House, Trefil**
(Cyfeirnod Grid: 119129)
The Quarrymen's Arms oedd hwn yn wreiddiol, sef un o hoff dafarnau Nye. Ffoniwch i weld a ydynt ar agor (01495 717690) er mwyn i chi gael mwynhau pryd o fwyd, neu beint wrth y

**2 Rheilffordd Trefil** Roedd hon yn system reilffordd gynnar iawn oedd yn cludo carreg galch tua'r de i'r gwaith haearn gerllaw. Mae 'Trefil' yn deillio o Tre Mul - cartref y mul, gan gyfeirio at y tramffyrdd neu at 3,000, gan gyfeirio at frwydr chwedlonol lle bu farw 3,000 o ryfelwyr.

**3 Ogof y Siartwyr** Yn ôl chwedloniaeth, yn yr ogof ddirgel yma y cyfarfu'r Siartwyr yn gyfrinachol a chynllunio Terfysg y Siartwyr yn 1839, yn eu hymdrech i sefydlu ein democratiaeth fodern. Mae dirgelwch ynghylch tri sgerbwd y cafwyd hyd iddynt yn ddwfn yn yr ogof. Ai'r rhain oedd gweddillion ysbiwyr a hysbyswyr y llywodraeth neu Siartwyr a laddwyd yn ystod Terfysg Casnewydd?

**4 Carn Fawr o'r Oes Efydd** Claddwyd pobl o statws uchel yn y fan yma oddeutu 4,000 o flynyddoedd yn ôl mewn cist garreg gyda chwpan yfed yn llawn cymysgedd o fedd a chywarch, i'w hanfon ar eu taith!

**5 Chwareli Calchfaen Trefil** Roedd carreg galch yn un o'r cynhwysion hanfodol wrth wneud haearn ac roedd galw mawr amdano yn ffwrneisi gweithfeydd Tredegar a Glyn Ebwy gerllaw. Caewyd y chwarel yma bron i ganrif yn ôl a'r fan annaearol hon yw'r heneb gofrestredig fwyaf yng Nghymru erbyn hyn.

**6 Tramffordd Bryn-oer** Yma, mae'r llwybr yn dilyn rheilffordd ceffyl o flynyddoedd cynnar y 19eg ganrif oedd yn cludo carreg o chwareli Trefil i'r gamlas yn Nhal-y-bont ar Wysg.

**7 Dyffryn Crawnon** Taenwyd llwch Nye, a llwch ei wraig Jenny, yn y fan yma am mai dyna oedd eu dymuniad, a dyma lle byddai Nye a chyfeillion ei blentyndod yn crwydro gan edrych allan dros gwm yr afon Crawnon.

**8 Odynau Calch** Llosgwyd carreg galch yma i wneud calch brwd ar gyfer adeiladu ac amaethyddiaeth.

**9 Bwrdd y Dug** Yn ôl chwedloniaeth defnyddiwyd y twmpath gwyrdd crwn yma mewn cylch carreg fel bwrdd picnic gan grwpiau o bobl oedd yn saethu grugieir ar wahoddiad Dug Beaufort oedd yn berchen ar y tir hwn..

**10 Lloc yr Hafod** Fel y mae'r enw 'hafod' yn ei olygu, roedd hwn yn anheddiad haf ar y tir uchel lle byddai'r ffermwr yn dod â'i ddefaid i bori porfeydd yr haf. Pwrpas y cylchoedd carreg oedd cau'r defaid i mewn, am eu bod yn cael eu godro'n rheolaidd. Y cylch llai oedd cwt y bugail.

